

# Ni eisiau dy farn di.

Oeddet ti'n gwybod fod modd i ti rhoi adborth i Lywodraeth Cymru, neu wneud cwyn?

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni yw Llywodraeth Cymru, ac rydym yn gweithio i wella bywydau pobl yng Nghymru a gwneud ein cenedl yn lle gwell i fyw a gweithio ynddo. Rydym yma i wrando ac ymateb i anghenion ein pobl a'n cymunedau.

Felly pam ydyn ni eisiau clywed gennyt ti? Gan ein bod yn gwerthfawrogi barn ein plant a'n pobl ifanc, bydd dy adborth yn ein helpu i wella'r gwasanaeth rydyn ni'n roi i bobl Cymru.

# Beth i wneud nesaf?

## Os hoffet ti roi rhywfaint o adborth i Lywodraeth Cymru—

**Galli di wneud hyn drwy gysylltu â Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar-lein:**
llyw.cymru/cysylltu-a-gweinidogion-llywodraeth-cymru

**Neu drwy anfon e-bost atom:**
cymorth@llyw.cymru

Os yw'n well gen ti, galli di ofyn i oedolyn ti'n ymddiried ynddo ysgrifennu'r adborth ar dy ran.

## Os wyt ti am wneud cwyn —

**Galli di wneud drwy lenwi ffurflen ar-lein:**
llyw.cymru/cwyn-am-lywodraeth-cymru-fel-person-ifanc

**Neu cysyllta â ni drwy e-bost neu dros y ffôn:**
cwynion@llyw.cymru
03000 251 738

Er enghraifft, mae'n iawn i gwyno os nad ydym ni'n darparu un o'n gwasanaethau ni yn iawn, neu os wyt ti'n credu bod ni ddim wedi ystyried dy hawliau.

Os yw'n well gen ti, galli di ofyn i oedolyn ti'n ymddiried ynddo ysgrifennu'r gŵyn ar dy ran.

Gall Comisiynydd Plant Cymru roi cyngor i ti: cyngor@complantcymru.org.uk neu mae 'Meic' meiccymru.org yn gallu rhoi gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i ti hefyd.

**Hawliau Plant** Cymru
**Children's Rights** Wales